COFNODION CYFARFOD Y IS BWYLLGOR HAWLIAU TRAMWY A GYNHALIWYD YN REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD LLUN, 22 AWST 2022, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| C L C Davies | RM Granville | H Griffiths | S J Griffiths |
| M R John | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jane Dessent | Cyfreithiwr |
| Andrew Mason | Rheolwr Hawliau Tramwy |
| Matthew Palmer | Rights of Way and Access Land Officer |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

1. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17/03/2022 fel cofnod gwir a chywir.

2. CYNNIG I DDARGYFEIRIO LLWYBR TROED 16 AC 17, YNYSAWDRE A CHYNNIG I DDIDDYMU LLWYBR TROED 16, YNYSAWDRE YN RHANNOL A CHYNNIG I DDARGYFEIRIO LLWYBR TROED 12, 16 AC 17 NEWCASTLE HIGHER

Cyflwynodd y Rheolwr Hawliau Tramwy adroddiad a oedd yn gofyn am awdurdodiad i wneud dau Orchymyn yn unol ag Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar dir i'r gorllewin o Heol Maesteg, Ton-du, CF32 9DF.

Dywedodd y bydd angen dargyfeirio rhannau o Lwybrau Troed 16 ac 17 Ynysawdre a Llwybrau Troed 12, 16 ac 17 Newcastle Higher yn ogystal â diddymu Llwybr Troed 16, Ynysawdre yn rhannol. Rhestrwyd y rhain yn 3.1 o'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Hawliau Tramwy fod y cynllun yn Atodiad A i'r adroddiad yn dangos cwrtil caniatâd y caniatâd cynllunio. Dangoswyd y rhannau o lwybrau troed y bwriedir eu dargyfeirio gan linellau du solet sy'n rhedeg rhwng y pwyntiau canlynol ar y cynllun yn Atodiad B i'r adroddiad.

Rhoddodd y Rheolwr Hawliau Tramwy fanylion am y gwahanol lwybrau y bwriedir eu dargyfeirio, eu diddymu'n rhannol a'u creu a darparwyd y rhain yn fanwl yn Atodiad B ac adran 4 o'r adroddiad.

Tynnodd y Rheolwr Hawliau Tramwy sylw at wall yn yr adroddiad yn adran 4.12. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y llwybr newydd arfaethedig rhwng pwynt P a G1 oddeutu 110 metr o hyd, mewn gwirionedd roedd hyn oddeutu 37 metr.

I gefnogi'r adroddiad, darparodd y Swyddog Hawliau Tramwy a Thir Mynediad ffotograffau i'r Aelodau a oedd yn dangos golygfeydd cyfredol yr holl bwyntiau perthnasol yn y llwybrau troed, yn ogystal â ffotograffau o'r awyr.

Gofynnodd Aelod a fyddai'r arwyneb y llwybr newydd yn gymysgedd o darmac ac arwyneb naturiol. Dywedodd y Rheolwr Hawliau Tramwy nad oedd unrhyw lwybrau troed newydd wedi'u gwneud o gyfuniad o bob deunydd. Ychwanegodd mai dim ond

Llwybr Troed 16 Newcastle Higher fydd ag arwyneb hollol naturiol a byddai gweddill y llwybrau yn darmac llawn.

Gofynnodd Aelod a oedd cynlluniau i osod unrhyw oleuadau stryd ar y llwybrau troed newydd wedi'u dargyfeirio. Dywedodd y Rheolwr Hawliau Tramwy nad oedd unrhyw ddyletswydd statudol gan y Cyngor i wneud hyn, ac nad oedd unrhyw gynlluniau i wneud hynny ar gyfer y llwybrau hyn. Ychwanegodd fod bwriad i osod 3 golau stryd yn un rhan o lwybr troed 12 Newcastle Higher, o bwynt P i gyfeiriad y de-orllewin.

Gofynnodd y Cadeirydd mewn perthynas â'r danffordd a grybwyllir yn yr adroddiad, a oedd goleuadau stryd yn cael ei osod yma. Dywedodd y Rheolwr Hawliau Tramwy nad oedd unrhyw oleuadau wedi'i gynnig ar gyfer y llwybr hwn.

Dywedodd y Rheolwr Hawliau Tramwy y byddai'r newid i hyd cyffredinol y rhwydwaith yn yr ardal o ganlyniad i'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad bellach yn 102 metr yn hirach nag y mae ar hyn o bryd ac nid 175 metr fel y nodir ym mharagraff 4.27 o'r adroddiad.

PENDERFYNWYD:

- Awdurdodi Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i wneud y Gorchymyn angenrheidiol i geisio dargyfeirio Llwybrau Troed 16 ac 17 Ynysawdre a Llwybrau Troed 12, 16 a 17 Newcastle Higher ac i greu llwybr troed cyswllt ychwanegol fel y dangosir ar y cynllun yn Atodiad B i'r adroddiad, ac i gadarnhau'r Gorchymyn ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau yn cael eu gwneud o fewn y cyfnod rhagnodedig, neu fod unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau a wneir yn cael eu tynnu'n ôl.

- Awdurdodi Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i wneud y Gorchymyn angenrheidiol i geisio diddymu llwybr troed 16 Ynysawdre yn rhannol fel y dangosir ar y cynllun yn Atodiad B i'r adroddiad, ac i gadarnhau'r Gorchymyn ar yr amod na wneir unrhyw wrthwynebiadau na sylwadau o fewn y cyfnod rhagnodedig, neu fod unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau a wneir yn cael eu tynnu'n ôl.

- Bod Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yn cael ei awdurdodi i anfon y Gorchymyn/Gorchmynion at Lywodraeth Cymru i'w penderfynu, os na chaiff unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir eu tynnu'n ôl.

- Bod y Gorchymyn/Gorchmynion yn eithrio unrhyw ran o'r dargyfeiriad sy'n defnyddio priffyrdd sy'n cael eu cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan fod hawliau cyhoeddus eisoes yn bodoli drostynt.

3. CYNNIG I DDARGYFEIRIO LLWYBR TROED 19, LLANGRALLO ISAF A CHYNNIG I DDIDDYMU LLWYBR TROED 18, LLANGRALLO ISAF YN RHANNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Hawliau Tramwy adroddiad a oedd yn ceisio awdurdodiad i ddirymu'r penderfyniad gwreiddiol mewn perthynas â'r cynnig i ddargyfeirio Llwybr Troed 19 Llangrallo Isaf a'r cynnig i ddiddymu Llwybr Troed 18 Llangrallo Isaf yn rhannol a wnaed gan yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy ar 5 Hydref 2021 ac i ofyn am awdurdodiad i wneud dau Orchymyn yn unol ag Adran 257 (Dargyfeirio) ac Adran 258 (Diddymu) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar dir i'r dwyrain o'r A48 (Crack Hill), Brocastell, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 5AU.

Darparodd y Rheolwr Hawliau Tramwy gefndir i'r adroddiad fel y manylir yn adran 3 o'r adroddiad. O bwys arbennig oedd y ffaith bod y mater wedi cael ei adrodd o'r blaen i'r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy ar 5 Hydref 2021. Roedd yn rhaid ei ailystyried oherwydd bod newidiadau bach i ddwy ran o'r llwybr a gynigir ei ddargyfeirio wedi'u darganfod cyn i'r Gorchmynion a awdurdodwyd yn flaenorol gael eu gwneud.  Roedd y cynllun yn Atodiad A i'r adroddiad yn dangos cwrtil caniatâd y caniatâd cynllunio. Dangosir y rhan o Lwybr Troed 19 Llangrallo Isaf y bwriedir ei ddargyfeirio gan linellau du solet rhwng Pwyntiau A-B ar y cynllun yn Atodiad D i'r adroddiad.

Eglurodd fod y rhan o Lwybr Troed 18 Llangrallo Isaf y bwriedir ei diddymu yn cael ei dangos gan linellau du solet rhwng Pwyntiau J-W ar y cynllun yn Atodiad D i'r adroddiad; ac, at ddibenion cyflawnrwydd, dangosir y ddwy gyswllt newydd sydd i'w creu gan linellau du toredig rhwng Pwyntiau A-M-N-O-P-Q a R-S-TU-V ar y cynllun yn Atodiad D i'r adroddiad.

Eglurodd y Rheolwr Hawliau Tramwy fod llwybr troed 19, Llangrallo Isaf ar hyn o bryd yn cychwyn ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 92857765), fel y dangosir ar y cynllun yn Atodiad D, ac yn mynd ymlaen i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain /  gogledd-ddwyrain am oddeutu 615 metr hyd at ei derfyn ger Nant Brocastell (Ffin y Fwrdeistref Sirol) ym Mhwynt B (Cyfeirnod Grid SS 93407790). Nid yw lled diffiniol y llwybr wedi'i ddiffinio. Mae gan y llwybr troed arwyneb naturiol.

Eglurodd fod llwybrau amgen arfaethedig Llwybr Troed 19, Llangrallo Isaf wedi'u disgrifio'n fanwl ym mharagraffau 4.2 a 4.3 o'r adroddiad. Amlinellwyd rhagor o wybodaeth am y gwahanol gynigion yn adran 4 o'r adroddiad.

Tynnodd y Rheolwr Hawliau Tramwy sylw at wall yn yr adroddiad ym mharagraff 4.2. Mae'r paragraff yn cyfeirio at bwynt X o atodiad D, fodd bynnag, dylai fod yn bwynt Z.

Dywedodd y Rheolwr Hawliau Tramwy, yn unol â phroses ymgynghori safonol yr Adran Hawliau Tramwy ar gyfer Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus, ymgynghorwyd â'r aelod lleol o Gyngor Bwrdeistref Sirol, Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf, Cymdeithas Ceffylau Prydain, Cymdeithas y Crwydrwyr Pen-y-bont ar Ogwr, grwpiau defnyddwyr eraill a sefydliadau â diddordeb, Heddlu De Cymru a chyfleustodau cyhoeddus ar y cynnig ym mis Medi 2018. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau gan:

Gymdeithas y Crwydrwyr Pen-y-bont ar Ogwr
Heddlu De Cymru
Wales & West Utilities
Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf

Derbyniwyd gwrthwynebiadau gan Dŵr Cymru (DCWW) gan fod ganddynt gyfarpar yn yr ardal yr oedd y cynnig yn effeithio arni. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng yr asiant a DCWW ac anfonwyd e-bost terfynol yn nodi y byddai DCWW yn tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl o ganlyniad i'r trafodaethau hynny.

Yn dilyn cyflwyno rhagor o wybodaeth am y cynigion newydd, a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd o ganlyniad i newidiadau arfaethedig yn y caniatâd cynllunio, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ym mis Gorffennaf 2020. Darparwyd y manylion hyn a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn adran 4 o'r adroddiad.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau.

<u>PENDERFYNWYD:</u>

- Rhoi awdurdod i ddirymu'r penderfyniad gwreiddiol mewn perthynas â'r cynnig i ddargyfeirio Llwybr Troed 19 Llangrallo Isaf a diddymu Llwybr Troed 18 Llangrallo Isaf yn rhannol fel y dangosir ar y cynllun yn Atodiad B i'r adroddiad, a wnaed gan yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy ar 5 Hydref 2021.

- Awdurdodi Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoliadol i wneud y Gorchmynion angenrheidiol i geisio dargyfeirio Llwybr Troed 19 Llangrallo Isaf ac i ddiddymu Llwybr Troed 18 Llangrallo Isaf yn rhannol fel y dangosir ar y cynllun yn Atodiad D i'r adroddiad, yn amodol ar y diwygiad i adlewyrchu pwynt Z yn hytrach na phwynt X fel y nodir yn 4.2 o'r adroddiad, ac i gadarnhau'r Gorchmynion ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau yn cael eu gwneud o fewn y cyfnod rhagnodedig, neu fod unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau a wneir yn cael eu tynnu'n ôl.

- Bod Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoliadol yn cael ei awdurdodi i anfon y Gorchymyn/Gorchmynion at Lywodraeth Cymru i'w penderfynu, os na chaiff unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir eu tynnu'n ôl.

- Bod y Gorchymyn/Gorchmynion yn eithrio unrhyw ran o'r dargyfeiriad sy'n defnyddio priffyrdd sy'n cael eu cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan fod hawliau cyhoeddus eisoes yn bodoli drostynt.

-

4. EITEMAU BRYS

Dim